


Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Home of Aesthetics and Beauty,
Coed-duon

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 21 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-501-7

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	16
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C – cynllun gwella	20



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Home of Aesthetics and Beauty, Coed-duon ar 21 Gorffennaf 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Dim ond dau ymateb a gafwyd ac, o ganlyniad, nid yw'r adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau cyfrinachedd yr ymatebwyr.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Home of Aesthetics and Beauty yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Roedd gan y clinig drefniadau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan gleifion drwy sawl sianel, gan gynnwys opsiynau dienw. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd crynodeb o safbwyntiau'r cleifion wedi'i gynnwys yn y Canllaw i Gleifion.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd drwy gydol taith y claf.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r clinig adolygu a diweddarau'r Canllaw i Gleifion er mwyn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd gan y clinig system ar waith ar gyfer ceisio safbwyntiau'r cleifion
- Roedd trefniadau cadarn ar waith i ddiogelu preifatrwydd a chyfrinachedd yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau roedd wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel ac yn cael ei weithredu yn unol â phrotocolau triniaeth cymeradwy a rheolau lleol.

Roedd y systemau diogelwch tân a'r trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu yn unol â gofynion y gwneuthurwr. Gwelsom hefyd nad oedd y gwasanaeth yn cynnal cofnodion cleifion cynhwysfawr ac nad oedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw.

Lle nodwyd bylchau bach, cymerodd y gwasanaeth gamau di-oed a darparodd dystiolaeth bod y materion hyn wedi cael sylw ar unwaith ar ôl yr arolygiad.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu yn unol â gofynion y gwneuthurwr.
- Nid oedd cofnodion cleifion cynhwysfawr yn cael eu cadw
- Nid oedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â chwrs ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi diogelu a'i roi ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig a'r ystafell drin wedi'u dylunio a'u gorffen i safon dda
- Roedd yr ystafell drin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli gan reolwr cofrestredig ymroddedig, ac roedd gan y clinig ddogfennaeth gofrestru ac yswiriant priodol.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau na chwynion wedi'u cofnodi ar adeg yr arolygiad, ac roedd systemau priodol ar waith i ymdrin â phryderon.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig fel defnyddiwr awdurdodedig y peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.
- Dangosodd y rheolwr cofrestredig ymrwymiad cryf i'r gwasanaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a ddarperir.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn rhoi hanes iechyd a hanes meddygol cynhwysfawr cyn cael eu triniaeth gychwynnol, a oedd yn cael ei lofnodi gan y claf a'i wrth-lofnodi gan weithredwr y laser. Fodd bynnag, er bod hanesion meddygol yn cael eu hadolygu ar lafar cyn unrhyw driniaethau dilynol, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu i gadarnhau bod yr adolygiadau hyn wedi cael eu cynnal. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i sicrhau bod y cleifion yn llofnodi datganiad cyn pob triniaeth ddilynol i gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, a chytunodd i wneud hynny.

Urddas a pharch

Roedd modd cloi drws yr ystafell drin, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y drws yn cael ei gloi yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd.

Roedd y cleifion yn cael tywelion er mwyn diogelu eu hurddas os oedd angen, ac roedd y staff yn gadael yr ystafell er mwyn iddynt ddadwisgo os oedd angen.

Roedd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i neb arall ei chlywed.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn cael unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn unrhyw driniaeth er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol. Roedd y staff yn gofyn i'r cleifion gwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol ar ddechrau pob triniaeth, cyn cael prawf croen.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i'r cleifion eu cadw. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd crynodeb o safbwyntiau'r cleifion wedi'i gynnwys yn y canllaw i gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion.

Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i'r cleifion ei darllen i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau o ran triniaethau, yn ogystal â manylion am y gwasanaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, roedd hanesion meddygol y cleifion yn cael eu casglu er mwyn sicrhau bod y driniaeth a ddewiswyd ganddynt yn addas.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y clinig yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gael adborth gan gleifion er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gallai'r cleifion roi adborth drwy holiaduron ar ddiwedd pob cwrs o driniaeth a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gellid cyflwyno adborth a sylwadau yn ddienw hefyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle yn amlwg yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael i'r cleifion, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod gwiriad o wifrau trydanol yr adeilad wedi cael ei gynnal.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis. Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd gan y clinig ystod o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Roedd yr asesiadau risg iechyd a diogelwch ac amgylcheddol yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw asesiadau risg tân ar gael. Cawsom gadarnhad yn syth ar ôl yr arolygiad bod asesiadau risg tân wedi cael eu datblygu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dân ei gwblhau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob rhan o'r gwasanaeth yn lân yr olwg.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o drefniadau atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys proses lanhau ddyddiol ar gyfer yr ystafell drin, a oedd yn cynnwys glanhau'r peiriant laser, y gwely trin, y cyfarpar, a'r sbectolau cyn eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu mewn amserlen lanhau. Cawsom gadarnhad yn syth ar ôl yr arolygiad bod amserlenni glanhau a rhestrau gwirio manwl wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith ar gyfer yr ystafell drin a'r clinig yn ei gyfanrwydd.

Gwelsom nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau lefel 2.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau lefel 2.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwaredu a chasglu gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel 2.

Gwelsom nad oedd polisi na gweithdrefnau diogelu oedolion ar waith. Gwnaethom drafod y gofynion i gael gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, ynghyd â siartiau llif a manylion cyswllt yn rhestru'r camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu oedolion yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn y clinig.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom nad oedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu yn unol â gofynion y gwneuthurwr. Dywedodd y rheolwr cofrestredig nad oedd yn ymwybodol bod angen gwasanaethu'r peiriant laser yn rheolaidd. Mae methu â sicrhau bod y cyfarpar laser yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr yn golygu na all y gwasanaeth ddangos bod y cyfarpar yn ddiogel ac yn addas at y diben. Roedd hyn yn golygu bod pobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth mewn perygl o gael triniaeth gan ddefnyddio cyfarpar nad oedd wedi'i gynnal a'i gadw'n ddigonol, a allai arwain at driniaeth aneffeithiol, methiant darn o gyfarpar neu niwed y gellid bod wedi'i osgoi.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch gwasanaethu'r peiriant laser drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y clinig ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. **Ceir manylion am yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn Atodiad B.**

Roedd protocolau trin ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwr laser.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant wedi cael ei gadw'n ddiogel ac mai dim ond gydag allwedd y gellid ei actifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd rhai systemau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd er mwyn helpu i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau ac yn cynnal asesiadau o risgiau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a'r amgylchedd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd rhaglen ffurfiol o archwiliadau clinigol ar waith. Gwnaethom argymhell y dylid datblygu rhaglen o archwiliadau clinigol strwythuredig a'i rhoi ar waith yn y clinig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi rhaglen ffurfiol o archwiliadau clinigol ar waith.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd wedi asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn ffurfiol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. O ganlyniad, ni allai'r gwasanaeth ddangos ei fod yn gwerthuso ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn rheolaidd, nodi meysydd i'w gwella, na sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion rheoleiddio. Roedd hyn yn lleihau'r sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol a bod risgiau i gleifion yn cael eu nodi a'u datrys mewn modd amserol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac yn darparu copi o'r ffurflen flynyddol i AGIC.

Rheoli cofnodion

Gwelsom nad oedd y clinig yn cadw cofrestr triniaethau. O ganlyniad, ni allai'r clinig ddarparu tystiolaeth o gofnod canolog o'r triniaethau a gyflawnwyd, gan gynnwys manylion sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd methu â chynnal cofrestr triniaethau yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i fonitro triniaethau a ddarperir yn effeithiol, nodi tueddiadau neu bryderon, ac ymchwilio i gwynion neu ddigwyddiadau niweidiol. Roedd hyn yn lleihau'r sicrwydd bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gofal diogel ac effeithiol a bod cofnodion cywir ar gael i gefnogi trefniadau goruchwyllo a pharhad gofal.

Gwelsom hefyd nad oedd y gwasanaeth yn cadw cofnodion cleifion cynhwysfawr.

Roedd absenoldeb cofrestr triniaethau yn golygu na allai'r rheolwr cofrestredig nodi a dod o hyd i gofnodion cleifion yn rhwydd pan ofynnwyd amdanynt. Gwnaethom ofyn am

gofnodion pum claf i'w hadolygu. Fodd bynnag, dim ond tri o'r pum cofnod claf y gofynnwyd amdanynt oedd ar gael i'w harchwilio. O'r rhain, dim ond mewn perthynas â'r ffaith bod cydsyniad i driniaeth wedi'i gael a bod asesiad o hanes meddygol wedi'i gynnal y llwyddwyd i gael sicrwydd. Ni welsom dystiolaeth bod gwybodaeth cyn triniaethau, cyngor ar ôl triniaethau, na chanlyniadau triniaethau wedi'u cofnodi. Yn ogystal, nid oedd y cofnodion yn dogfennu gwybodaeth allweddol am driniaethau yn gyson, gan gynnwys y driniaeth a roddwyd, gosodiadau'r peiriant laser a pharmedrau trin perthnasol eraill, y cyfrif dosau, nac unrhyw adweithiau niweidiol neu sgil-ffeithiau a brofwyd gan y claf. O ganlyniad, ni allai'r gwasanaeth ddangos bod cofnodion cywir, cyflawn a chyfoes yn cael eu cadw ar gyfer unigolion a oedd yn cael triniaeth.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â chofnodion y cleifion drwy hysbysiad diffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y clinig ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. **Ceir manylion am yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn Atodiad B.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Home of Aesthetics and Beauty ac yn ei redeg, a'r rheolwr yw unig weithredwr y peiriant laser.

Gwelsom dystysgrif gofrestru gyfredol gan AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr gyfredol yn cael eu harddangos.

Wrth edrych ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys system rheoli fersiynau glir a/neu ddyddiadau adolygu. Roedd hyn yn dangos bod systemau priodol ar waith yn y gwasanaeth i gynnal a diweddarau dogfennau llywodraethu allweddol yn unol â'r safonau perthnasol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod i AGIC amdanynt.

Roedd polisi cwynion ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd y weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Roedd gan y clinig system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig fel unig weithredwr y peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer y system laser.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Home of Aesthetics and Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Gwelsom nad oedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu yn unol â gofynion y gwneuthurwr.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr, a chadw tystiolaeth o'r gwaith gwasanaethu i'w harchwilio yn y dyfodol. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd roi tystiolaeth i AGIC fod y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu.	Rheoliad 15 (2) Ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir Rheoliad 19 (1) Asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwasanaethu'r peiriant bob blwyddyn a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd.		Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau / parhaus
Canfyddiadau		Gwelsom nad oedd y clinig yn cadw cofrestr triniaethau ac na allai ddangos bod cofnodion cleifion cywir, cyflawn a chyfoes yn cael eu cadw.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	

2.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofrestr triniaethau ei chadw ar gyfer pob triniaeth laser a gyflawnir yn y gwasanaeth. Dylai'r gofrestr gynnwys: • enw'r claf neu ei rif adnabod unigryw • dyddiad y driniaeth • yr ardal a gafodd ei thrin • y cyfrif dosau a pharmedrau trin perthnasol • y math o gyfarpar a ddefnyddiwyd • llofnod y gweithredwr • manylion unrhyw effeithiau neu adweithiau niweidiol. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion cywir, cyflawn a chyfoes yn cael eu cadw a'u bod yn cynnwys cydsyniad, hanes meddygol, manylion am y driniaeth, y paramedrau trin, cyngor ôl-ofal, canlyniadau'r driniaeth ac unrhyw effeithiau neu adweithiau niweidiol.	Rheoliad 45 (2) Defnyddio technegau neu dechnoleg benodol Rheoliad 23, Cofnodion		
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:			Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cael cofnodwyr newydd i gofnodi manylion cleifion ar y gofrestr ac ar gofnod y cleient, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu diwedddaru ar gyfer pob cleient			Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau / parhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rheolwr Cofrestredig

Swydd: Rheolwr Cofrestredig / Gweithredwr Laser Dyddiad: 28 Gorffennaf 2026

Atodiad C – cynllun gwella

Gwasanaeth: Home of Aesthetics and Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Gwelsom nad oedd crynodeb o safbwyntiau'r cleifion ar gael yn y Canllaw i Gleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Canllaw i Gleifion yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion.	Rheoliad 7 (1) (e) Canllaw i gleifion	Caiff y canllaw i gleifion ei ddiweddarau er mwyn cynnwys safbwyntiau'r cleifion	Rheolwr Cofrestredig	Y 3 mis nesaf
2.	Gwelsom fod angen i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dân.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dân ei gwblhau.	Rheoliad 26 (4) (c) Addasrwydd mangreoedd	Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer hyfforddiant	Rheolwr Cofrestredig	Y 3 mis nesaf
3.	Gwelsom fod angen i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau lefel 2.	Rheoliad 9 (1) (n) Polisiâu a gweithdrefnau	Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer hyfforddiant	Rheolwr Cofrestredig	Y 3 mis nesaf

4.	Ni welsom fod unrhyw bolisiau a gweithdrefnau ar waith o ran diogelu oedolion agored i niwed.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu oedolion agored i niwed yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn y clinig.	Rheoliad 16 Diogelu cleifion rhag camdriniaeth	Bydd polisi diogelu yn cael ei ysgrifennu a'i ffeilio a chaiff copi ei anfon at AGIC.	Rheolwr Cofrestredig	Y 3 mis nesaf
5.	Gwelsom nad oedd rhaglen o archwiliadau clinigol ar waith.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi rhaglen ffurfiol o archwiliadau clinigol ar waith.	Rheoliad 19, Asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir	Byddaf yn cynnal archwiliadau clinigol o ffurflenni meddygol cleientiaid, ffurflenni cydsynio, yr amserlen lanhau, ac ati.	Rheolwr Cofrestredig	Bydd hyn yn digwydd yn barhaus
6.	Gwelsom nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi asesu na monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac yn darparu copi o'r ffurflen flynyddol i AGIC.	Rheoliad 19, Asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys ffurflenni blynyddol.	Byddaf yn gofyn i gleientiaid adolygu fy nhriniaethau drwy holiadur	Rheolwr Cofrestredig	Bydd hyn yn barhaus ac yn cael ei gwblhau bob blwyddyn

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rheolwr Cofrestredig

Swydd: Therapydd Estheteg a Laser: Dyddiad 16/09/2026